**Disgriblio!**

## Dyn Eira

Mae hi wedi bwrw eira. Mae lluwchfeydd o eira ar y llawr. Mae dau blentyn yn chwarae yn yr eira. Maen nhw wedi adeiladu dyn eira mawr. Rhowch het am ei ben, dwy lygad, trwyn a cheg. Rhowch sgarff am ei wddf a phoced ar ochr ei got. Mae ganddo bibell yn ei geg. Rhowch foron yn ei boced. Mae tri o blant arall wedi dod i ymuno yn yr hwyl. Mae dau yn taflu peli eira at ei gilydd. Cofiwch wisgo'r plant mewn dillad cynnes. Mae un yn gwisgo het dri chornel a sgarff streipiog. Mae un arall yn gwisgo het yr un fath â'r dyn eira. Gwisgwch y plant arall mewn cotiau hir.

## Sion Corn

Mae sion Corn wedi blino'n lân. Rhowch e i eistedd mewn cadair esmywth ger y tân. Gofalwch, peidiwch â'i roi yn rhy agos at y tân neu bydd yn llosgi ei esgidiau smart! Mae rhai parseli ar ôl ar y silffoedd o hyd. Mae angen eu gosod nhw yn y sled. Bydd rhaid helpu am fod sion corn yn cysgu'n drwm! Rhowch barsel siap petryal yn ofalus yn y sled. Nawr rhowch barsel crwn yno a pharsel mawr sgwar. Da iawn. Fe gewch anrheg Nadolig am eich help!

## Y Goeden Nadolig

Dyma goeden Nadolig drist- does neb wedi cofio ei gwisgo hi ar gyfer y Nadolig. Beth am helpu? Mae tair cangen bob ochr i'r goeden. Ar y gangen uchaf gosodwch seren ddisglair. Ar y gangen ganol gosodwch gloch fach werdd sy'n disgleirio. Mae angen tinsel gwyn fel eira ar y gangen isaf. Ar y gangen uchaf arall rhowch barsel hirsgwar wedi ei glymu gyda ruban aur. Rhowch ddwy belen aur ar y ddwy gangen arall. Mae un peth ar ôl. Ar frig y goeden mae Tylwythen Deg arian. Diolch am wisgo'r goeden

## Yr Arth Wen

Mae arth wen fawr yng nghanol yr eria. Mae pysgodyn yn ei cheg. Wrth ochr yr arth fawr mae arth fach yn gorwedd. Mae'r arth fach yn cysgu. Ger y ddwy arth mae pwll bach. Mae pedwar pysgodyn yn y pwll.

Ymhell oddi wrth yr arth mae iglw yr esgimo. Mae'r esgimo y tu allan i'r iglw. Mae'r esgimo yn gwisgo cot ffwr. Mae ôl troed yr esgimo yn yr eira yn dod o'r pwll pysgod.